OPERA CENEDLAETHOL CYMRU
WELSH NATIONAL OPERA

# Goruchwyliwr Gweithrediadau Cerdd
# Gorffennaf 2026


# Goruchwyliwr Gweithrediadau Cerdd


**Yn atebol i:** Rheolwr Cerddorfa / Pennaeth Gweithrediadau Technegol

**Yn gyfrifol am:** Staff WNO dirprwyedig (gan gynnwys hyfforddeion); criw lleoliad, llawrydd, asiantaeth ac achlysurol dirprwyedig

## Y Swydd

Cefnogaeth weinyddol a gweithredol gyffredinol ar gyfer lluoedd perfformio WNO, yng Nghaerdydd ac ar daith, gan sicrhau'r amgylchedd gweithio gorau posibl er mwyn galluogi cerddorion WNO i berfformio ar eu gorau.

Mae'r swydd yn golygu cyfathrebu â Rheolwyr y Gerddorfa, Rheolwyr y Corws, Cynhyrchwyr a'r Tîm Cynllunio i bennu pa adnoddau sydd eu hangen ymhle a pha bryd.

Cyfathrebu â'r Pennaeth Gweithrediadau Technegol i bennu pa gymorth sydd ar gael gan Leoliadau a chan Dimau Technegol eraill WNO.

Paratoi gwybodaeth ymlaen llaw, gan ei rhannu'n briodol ac yna rheoli gweithrediadau ar y safle.

# Prif Gyfrifoldebau

### Gweithrediadau a Theithio

- Ar y cyd â Rheolwr y Gerddorfa a Phennaeth y Corws a'r Gerddorfa, sicrhau bod yr ardaloedd perfformio wedi'u gosod, a'u bod nhw'n ddiogel ac yn barod i'w defnyddio mewn modd amserol a phroffesiynol.
- Arwain ar lwytho offer Cerddorfa WNO i mewn ac allan ym mhob lleoliad ar gyfer perfformiadau operatig.
- Arwain ar gymorth gweithredol ar gyfer cyngherddau, recordio a gweithgareddau eraill Cerddorfa a Chorws WNO.
- Arwain ar lwytho wagen Gerddorfaol a cherbydau eraill WNO yn ddiogel, ar y cyd â Phrif Yrrwr a Rheolwr Cerddorfa WNO.

- Arwain ar symud offer cerddorol WNO ac offer cerddorol personol, gan sicrhau codi a chario diogel bob amser - darparu goruchwyliaeth a chyfarwyddyd i Staff eraill WNO, y gweithwyr achlysurol a chriw'r lleoliad.
- Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cerddorfaol ar gael cyn unrhyw sesiwn, wedi'u gosod ac ar standiau, gan drafod gyda Llyfrgell Gerddoriaeth WNO.
- Ar y cyd â Rheolwyr y Llwyfan a Phennaeth y Llwyfan, sicrhau bod unrhyw ardal band ar y llwyfan yn cael ei gosod yn amserol ac yn ddiogel.
- Mynychu ymarferion, bod ar ddyletswydd mewn perfformiadau a sioeau, ac, yn achlysurol, cyflawni ôl rheolwr llwyfan mewn cyngherddau.
- Cadw cysylltiad da â'r chwaraewyr er mwyn sicrhau bod yr amgylcheddau perfformio yn addas at y diben, gan adrodd ar bryderon ynghylch tymheredd, lleithder a goleuo i staff y lleoliad a/neu Reolwr y Gerddorfa.
- Gyrru cerbydau WNO yn ôl yr angen.
- Llunio Asesiadau Risg ar gyfer gweithgareddau gweithredol.
- Rheoli logisteg y safle ar gyfer Tiwnio Piano - gan sicrhau bod y sesiynau tiwnio'n cael eu trefnu ar gyfer amseroedd priodol yn yr amserlen a bod offerynnau perthnasol yn y lle cywir ar yr adeg gywir.

## Cynllunio a Gweinyddu

- Deall yr holl ofynion cynhyrchu cerddorol sy'n berthnasol i bob allbwn WNO o safbwynt perfformiad, ar y cyd â Rheolwr y Gerddorfa, Pennaeth y Corws a'r Gerddorfa, y cerddorion (contract a llawrydd), y Staff Cerdd a'r Arweinwyr.
- Cyfathrebu â'r Pennaeth Gweithrediadau Technegol i bennu gofynion ychwanegol o ran trafnidiaeth, offer a staffio ar gyfer gweithgareddau arfaethedig.
- Gweithio gyda Rheolwr y Gerddorfa a'r Pennaeth Gweithrediadau Technegol i sefydlu amserlen gweithrediadau cerddorfa sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael ac sy'n lleihau costau trydydd parti cymaint â phosib - e.e: gweithwyr llawrydd a threuliau'r lleoliad.

- Paratoi a rhannu gwybodaeth dechnegol uwch yn ôl y gofyn - gan gynnwys cynlluniau llwyfan / pwll drwy feddalwedd AutoCAD a manylion technegol i'r lleoliad. Caiff y tasgau hyn eu cyflawni ar y cyd â Rheolwr y Gerddorfa, Pennaeth y Corws a'r Gerddorfa a'r Pennaeth Gweithrediadau Technegol.
- Gwaith gweinyddol arferol (h.y. llythyrau cadarnhau y cerddorion a dogfennaeth logisteg a chymorth clyweliadau cerddorfa, manylion i'r lleoliad - heb fod yn gynhwysfawr.)
- Bod yn gyfrifol am waith paratoi gweinyddol dogfennaeth weithredol ryngwladol fel dogfennaeth CARNET, dogfennaeth CITES, ardystiad Offeryn Cerddorol - heb fod yn gynhwysfawr - gan weithio â Rheolwr y Gerddorfa, Pennaeth y Corws a'r Gerddorfa a'r Prif Yrrwr.
- Cymryd cyfrifoldeb dirprwyol am anfonebau adrannol ac archebion prynu adrannol.
- Cynorthwyo Rheolwr y Gerddorfa gyda gweithredu a chyflawni arferion Sŵn yn y Gwaith a rhaglen Awdioleg WNO.
- Sicrhau cyfathrebu da â cherddorion WNO ynghylch cynlluniau gosod, cludiant a diogelwch yn y gwaith.

## Ymarferion a Chynnal a Chadw

- Cynorthwyo gyda pharatoi a gosod pob ardal ymarfer y cwmni - gyda phwyslais ar sicrhau bod offer cerdd, pianos ac allweddellau ar gael yn ôl y gofyn.
- Lle bo angen, sicrhau gosodiadau ar gyfer adrannau eraill yn ardaloedd ymarferion a pherfformiadau WNO (h.y, Corws, prosiectau Ymchwil a Datblygu a Rhaglenni ac Ymgysylltu.)
- Cadw rhestr offerynnau WNO yn gyfredol, a goruchwylio trefniadau llogi offerynnau allanol, ar y cyd â Rheolwr y Gerddorfa.
- Prif gyfrifoldeb am gynnal a chadw offer cerdd e.e: adrodd unrhyw broblemau gyda'r offerynnau a threfnu'r logisteg atgyweirio, gwirio'r standiau cerdd a'r cadeiriau, sicrhau fod yr offer trydanol yn ddiogel.
- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod Neuadd Gerddorfa a storfa Offerynnau Taro WNO yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus at ddefnydd Cerddorfaol a defnydd arall.

- Darparu cymorth technegol ychwanegol i Dimau eraill WNO yn ôl yr angen.

# Manyleb Person

**Goruchwyliwr Gweithrediadau Cerdd:**

- Yr awydd i gaffael profiadau a gwybodaeth newydd ac i ddysgu sgiliau newydd.
- Sgiliau goruchwylio gan gynnwys y gallu i wrando, dirprwyo a chyflwyno hyfforddiant ymarferol anffurfiol.
- Hanes profedig o gynllunio a darparu cymorth ar gyfer ymarferion a pherfformiadau cerdd gyda phwyslais ar weithrediadau cerddorfaol.
- Sgiliau cyfathrebu da, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Hunan-gymhellol a rhagweithiol, gyda'r gallu i weithio'n ddigynnwrf dan bwysau a blaenoriaethu gofynion sy'n gwrthdaro.
- Y weledigaeth i helpu i lunio ffyrdd newydd o weithio mewn ymateb i amgylchedd gwaith sy'n newid yn gyflym.
- Dull cydymdeimladol wrth ymdrin â phobl sy'n gweithio dan bwysau mewn amgylchedd artistig.
- Y gallu i weithio fel aelod o dîm mawr yn ogystal â'r gallu i weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach.

## Sgiliau a Phrofiad Hanfodol:

- Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad rhagorol o arferion gweithrediadau cerddorfa.
- Profiad ymarferol helaeth o drin a chludo offerynnau ac offer cerddorol yn ddiogel.

- Y gallu i ddarllen a dehongli cynlluniau llwyfan a llawr.
- Sgiliau darlunio AutoCad a/neu’r parodrwydd a’r gallu i ddysgu.
- Gwybodaeth ymarferol dda o arferion Iechyd a Diogelwch cyfredol sy’n gysylltiedig â pherfformio cerddoriaeth a theithio.
- Sgiliau TG cyffredinol, gan gynnwys y gallu i ddefnyddio Outlook, Word ac Excel.
- Y gallu i deithio’n annibynnol yn y DU a thramor.
- Profiad gweithredol o oruchwylio’r gwaith o lwytho offer cyngherddau i mewn ac allan.
- Y gallu i ddehongli trefniannau cerddorfaol*.
- Dealltwriaeth o offerynnau ac offer cerddorfaol.*
- Profiad o lwytho offer Pwll y Gerddorfa i mewn ac allan*.
- Profiad o deithiau theatraidd ar raddfa fawr.*
- Meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am arfer cyfredol gyda'r gallu i gadw ar y blaen â thechnolegau ac arferion gwaith newydd.*
- Cymhwyster Iechyd a Diogelwch cydnabyddedig a/neu’r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i ennill cymhwyster gyda hyfforddiant addas.*
- Y potensial i ddatblygu i swydd uwch o fewn theatr dechnegol*.
- Trwydded yrru gyfredol, lawn y DU.*
- Diddordeb mewn Opera.*
- Yn gallu ysgrifennu/siarad Cymraeg*.
- Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth GDPR *.

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â diddordeb nad ydynt efallai’n bodloni’r holl feini prawf presennol. Yn yr achos hwn, byddem yn cynnig cymorth hyfforddiant a datblygu yn ystod y flwyddyn gyntaf. Byddai cyflog is yn cael ei gynnig yn ystod y cyfnod dysgu.

Mae pwyntiau sydd wedi'u marcio â seren (*) yn ddymunol yn hytrach nag yn hanfodol.

## Telerau ac Amodau

- Cyflog: £38,064.00
- Lwfansau Cynhaliaeth: Teithio: Cyfraddau Theatr, Opera a Ballet y DU £515.94 - £644.93 yr wythnos ar gyfer wythnosau teithio opera
- Math o Gontract: Contract Cyfnod Penodol 01af Medi 2026 tan 31ain Awst 2027 gyda’r nod o ymestyn hynny.
- Mae’r swydd yn gytundeb ar y cyd rhwng WNO a BECTU - yn seiliedig ar 44 awr yr wythnos yn flynyddol.
- Cyfnod Rhybudd: 1 wythnos yn ystod cyfnod prawf gan godi i 1 mis wedi’r cyfnod prawf
- Cyfnod Prawf: 1 mis
- Lleoliad Arferol: Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL (Bydd Angen Teithio) h.y. byddwch yn gweithio yng Nghaerdydd yn ogystal â Theithio’r DU

## Buddion

- 33 diwrnod o wyliau blynyddol (yn cynnwys 8 gŵyl banc Cymru), yn codi i 36 diwrnod wedi 5 mlynedd o wasanaeth

- Polisïau absenoldeb teuluol manwl
- Bydd staff yn derbyn yswiriant bywyd grŵp cyfwerth â 3x eu cyflog blynyddol.
- Parcio rhatach ym maes parcio Q Park ym Mae Caerdydd.
- Gostyngiadau mewn allfeydd dethol ym Mae Caerdydd.
- Rydym yn cefnogi cydweithwyr sy'n dymuno dysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, ac rydym yn cynnig gwersi Cymraeg dewisol ar lefelau sylfaenol a gwella.
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr: Cwnsela a chyngor cyfrinachol, am ddim i staff, gweithwyr llawrydd, contractwyr a'u teuluoedd.
- Mae cynllun pensiwn ar gael yn dilyn tri mis o gyflogaeth (cyfraniad cyflogwr o 4% / cyfraniad gweithiwr o 4%).

## Addasiadau Rhesymol

Mae WNO wedi ymrwymo i gynnal proses recriwtio gynhwysol a hygyrch. Os ydych angen gwneud addasiadau ar unrhyw gam o'ch cais neu gyfweliad, rhowch wybod i ni. Gall addasiadau gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Deunyddiau cais mewn fformatau amgen
- Cwestiynau cyfweliad wedi'u rhannu o flaen llaw
- Rhagor o amser ar gyfer cwestiynau cyfweliad neu asesiadau
- Copïau ysgrifenedig o'r cwestiynau (gan gynnwys drwy sgwrs ar gyfer cyfweliadau rhithiol)
- Mynediad at ddehonglwyr/cyfieithwyr ar y pryd, gan gynnwys y Gymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain

Byddwn yn ystyried pob cais am addasiadau rhesymol yn unigol a byddwn yn gweithio gyda chi i ddarparu cefnogaeth briodol lle bynnag y bo'n ymarferol. I drafod addasiadau, cysylltwch â recruitment@wno.org.uk.

## Sut i Wneud Cais

- Cyflwynwch eich cais a CV (dim mwy na dwy dudalen A4) yn y Gymraeg neu’r Saesneg drwy ein porth ar-lein.

## Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau

- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw dydd Llun 27ain Gorffennaf 2026 am 23:59.